**|Eitem Agenda 9** **26 Mawrth 2010** **WNC 06.10**

# DIWEDDARIAD FOREST RESEARCH YNG NGHYMRU

## Pwrpas

1. Mae'r papur hwn yn rhoi diweddariad i'r Bwrdd ynglŷn â datblygiadau presennol i Forest Research (FR) yng Nghymru.

## Rheolaeth

2. Daeth Peter Freer-Smith, Cyfarwyddwr Ymchwil FR, i Gymru ym mis Hydref. Buom yn trafod cynnydd gyda Chyfarwyddwr Comisiwn Coedwigaeth Cymru a chwrdd â staff Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS) a Sefydliad Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear Prifysgol Aberystwyth Ymhlith y pynciau allweddol a drafodwyd oedd ymchwil Newid yn yr Hinsawdd, cyfleoedd ar gyfer datblygu astudiaethau ar raddfa dalgylchoedd gan gynnwys coedwigoedd ymchwil, yn ogystal â'r potensial ar gyfer gweithredu technoleg synhwyro o hirbell.

## Staffio

3. Cynhaliwyd cyfarfod o holl staff FR yng Nghymru yn Aberhonddu ym mis Tachwedd. Trafododd y staff gynlluniau ar gyfer ymchwil, arolygon a throsglwyddo technoleg yng Nghymru ac fe'u hanerchwyd gan James Pendlebury, Prif Weithredwr FR. Amlinellodd Pennaeth y Ganolfan Coedwigaeth a Newid yn yr Hinsawdd) a Phennaeth y Ganolfan Adnoddau a Rheoli Coedwigaeth waith eu Canolfannau. Ymunodd tîm polisi Comisiwn Coedwigaeth Cymru â'r cyfarfod gan amlinellu datblygiadau yn narpariaeth *Coetiroedd i Gymru*; bydd y rhyngweithio gwerthfawr hwn yn eitem reolaidd mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

## Cyfleoedd cyllid ac ymchwil

4. Mae prosiect IVA IMPACT Interreg wedi dechrau o'r diwedd (dyddiad cychwyn swyddogol 1 Rhagfyr 2009). Gyda FR yn Bartner Blaen, mae'n werth tua €490 mil dros dair blynedd i FR, gan gynnwys 25% o arian cyfatebol gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru. Mae FR yng Nghymru hefyd yn rhan o brosiect ISEFOR FP7 a enillwyd yn ddiweddar ac sy'n cael ei arwain gan Brifysgol Aberdeen (gwerth tua £12 mil y flwyddyn i FR) ac a fydd yn dechrau ganol 2010. Rydym yn ymchwilio i nifer o ffynonellau ariannu eraill. Nodwyd cyfleoedd newydd ynglŷn ag Iechyd Planhigion, yn enwedig yn ymwneud â nematodau coed pîn dan raglen FP7 yr UE, a bu FR yng Nghymru'n cydlynu cais (hyn ar ôl iddynt gydlynu prosiect blaenorol ar nematodau coed pîn o dan FP5 yr UE) erbyn y dyddiad cau ym mis Ionawr 2010.

5. Cwrddais â Chris Lea (Pennaeth Is-adran Gwasanaethau Technegol Llywodraeth y Cynulliad) ym mis Tachwedd. Buom yn trafod sut gall FR gydblethu'n well ag anghenion Llywodraeth y Cynulliad o ran casglu gwybodaeth, ymchwil a lledaenu gwybodaeth. Nodwyd cyfleodd sydd ar gael yn syth mewn gwaith Iechyd Planhigion a Gwasanaethau Ecosystemau. Ar ôl hynny, cwrddais â staff Iechyd Planhigion Llywodraeth y Cynulliad yn Aberystwyth ym mis Chwefror.

6. Fel rhan o gwmpasu darparu cyfleoedd arolygu, monitro ac ymchwil nawr ac yn y dyfodol yng Nghymru a'r gororau, mae staff FR o'r ddwy ochr i'r ffin bellach yn cwrdd pob mis. Mae Cytundeb Lefel Gwasanaeth ar gyfer Uned Gwasanaethau Technegol FR i ddarparu gwaith ar gyfer Cynaeafu a Marchnata Comisiwn Coedwigaeth Cymru wedi ei gytuno. Mae cyflawni'r cytundeb hwn yn effeithiol yn bwysig ac yn gyfle i ddatblygu rhagor o waith yn uniongyrchol gyda Chomisiwn Coedwigaeth Cymru.

7. Mae efrydiaeth Gwybodaeth, Economi, Sgiliau ac Ysgoloriaeth (KESS) ar synhwyro o hirbell wedi ei diogelu. Mae FR yng Nghymru yn gyd-oruchwylydd er mwyn galluogi'r prosiect i elwa ar y cysylltiad Cymreig.

8. Cynhaliwyd cyfarfod defnyddiol iawn ynglŷn â chyfleoedd ymchwil/ariannu gyda Chomisiwn Coedwigaeth Cymru ym mis Chwefror. Roedd nifer o staff FR yn bresennol. Llwyddwyd i nodi nifer o feysydd, a amlygwyd wedyn yng Nghynllun Gweithredu Coetiroedd i Gymru, ar gyfer cydweithredu a cheisiadau ar y cyd am arian. Ar gais Comisiwn Coedwigaeth Cymru, mae gwaith ar ddatblygu dangosyddion iechyd coed i ddarparu canlyniadau i *Goetiroedd i Gymru* wedi dechrau ac yn cynnwys staff FR yn y Ganolfan Coedwigaeth a Newid yn yr Hinsawdd.

9. Cefais wahoddiad i annerch Gweithdy yn IGES, Aberystwyth, mewn perthynas â defnyddio canlyniadau ymchwil ac ymchwilio ar y cyd. Roedd hyn yn gyfle defnyddiol i rwydweithio ac roedd yn cynnwys arianwyr, gweithwyr Eiddo Deallusol proffesiynol ac ymchwilwyr o'r Brifysgol.

10. Cynhaliwyd cyfarfod o Banel Cwarantîn Coedwigaeth Sefydliad Diogelu Planhigion Ewrop a Môr y Canoldir (EPPO) yng Nghaerdydd yr wythnos ddiwethaf. Mae FR yng Nghymru yn aelod o'r Panel, a neilltuwyd y cyfarfod i drafod y bygythiadau i goedwigoedd Ewrop o nematodau coed pîn, tyllbryf onn emrallt, chwilod hirgorn sitrws a'r ffwng *Chalara fraxinea*. Croesawyd ac anerchwyd y panel gan y Gweinidog dros Faterion Gwledig, Elin Jones ar 17 Mawrth.

**<u>Cynllun Datblygu FR yng Nghymru</u>**

11. Ar ôl sawl newid, yn dilyn cyfranogiad Bwrdd Gweithredol FR a Phennaeth Polisi a Rhaglenni Comisiwn Coedwigaeth Cymru, mae'r Cynllun Datblygu bellach wedi ei gwblhau ac mae wedi'i ddosbarthu i Fwrdd Rheoli a Phwyllgor Cenedlaethol Comisiwn Coedwigaeth Cymru. Caiff y cynllun ei ddiweddaru yn flynyddol gyda thargedau newydd ar gyfer staffio, incwm a lledaenu ymchwil ar gyfer amrywiaeth o fudd-ddeiliaid.

12. Mae croeso i unrhyw awgrymiadau ar gyfer cyfarwyddiadau ymchwil a chyfleoedd lledaenu newydd ac rwy'n hapus i gwrdd ag unrhyw un o staff Comisiwn Coedwigaeth Cymru i drafod ymchwil a chydweithio posibl.

13. Y prif Fesur Perfformiad ar gyfer 2010 fydd symud cynllunio ar gyfer Coedwigoedd Ymchwil/Labordai Naturiol yn ei flaen ac, os bydd modd, eu rhoi ar waith. Mae cydweithio â'r gymuned ymchwil ac arianwyr yng Nghymru yn hanfodol ar gyfer symud hyn yn ei flaen.

**Cyfathrebu**

14. Bydd tri phrif ddigwyddiad lledaenu yng Nghymru yn ystod 2010:

- Gweithdy Newid yn yr Hinsawdd ar 18 Mai yn Llandrindod, yn cynnwys sawl siaradwr o FR;
- Gweithdy ar yr hyn y gall FR ei gynnig i Gymru (strategaeth debyg i'r digwyddiad diweddar ar gyfer Defra). Y siaradwyr dewisol fydd y Prif Weithredwr, y tri Phennaeth Canolfan a Hugh Evans o FR ac FR yng Nghymru;
- Seminar diweddaru ymchwil ar gyfer Comisiwn Coedwigaeth Cymru a budd-ddeiliaid eraill gydag amrywiaeth o bynciau o ddiddordeb ymchwil i Gymru (mwy na thebyg yn yr hydref).

**Risgiau**

15. Mae cynnydd da wedi'i wneud wrth ddatblygu FR yng Nghymru. Fodd bynnag mae'r sefyllfa ariannu yn dal yn anodd, fel yr amlinellwyd gan Brif Weithredwr FR yn ei gyflwyniad i staff FR yng Nghymru. Mae hefyd angen amrywio'r ymchwil i fanteisio ar ymchwil newydd ac agendâu polisi yng Nghymru. Bydd hyn yn eitem flaenoriaeth yn ystod 2010.

**Argymhellion**

16. Gofynnir i'r Bwrdd nodi cynnwys y papur hwn.

**Dr Hugh Evans**
**Pennaeth Forest Reasearch yng Nghymru**
**Mawrth 2010**